

Sector Rhentu Preifat

Rwy'n denant rhentu preifat (deiliad contract), sut bydd y Ddeddf yn effeithio arnaf i?

Mae rhai o'r prif newidiadau a fydd yn effeithio arnoch chi fel a ganlyn.

Byddwch chi'n derbyn contractau meddiannaeth safonol newydd ac am y tro cyntaf mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar landlordiaid preifat i roi contract ysgrifenedig i ddeiliaid contract o fewn 14 diwrnod cyntaf y feddiannaeth.

Bydd hefyd gennych chi lefel sicrwydd uwch gan fod y cyfnod rhybudd y mae'n rhaid i landlord ei roi i ddeiliad contract ar sail 'dim bai' (a elwir yn gyffredin ar hyn o bryd yn 'hysbysiad adran 21') yn newid o 2 fis i 6 mis. Does dim hawl cyflwyno'r hysbysiad hwn tan 6 mis ar ôl i'r contract ddechrau. Mae hyn yn golygu y bydd gan bob deiliad contract o leiaf 12 mis o sicrwydd ar ddechrau eu tenantiaeth.

Beth mae amddiffyniad yn erbyn troi allan dialgar yn ei olygu?

Os bydd landlord preifat yn ymateb i gais am atgyweiriad drwy roi hysbysiad adennill meddiant, ni fydd ganddo hawl awtomatig i feddiannu mwyach os yw'r Llys yn fodlon bod y landlord wedi rhoi'r hysbysiad i osgoi gwneud y gwaith atgyweirio.

Ble gallaf ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae gan Lywodraeth Cymru wefan benodol y mae modd ei gweld drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol: <https://llyw.cymru/tenantiaid-mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi>

Neu drwy fynd i wefan Rhentu Doeth Cymru gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: <https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/home/>.